**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

Tŷ'r Cyffredin
LLUNDAIN
SW1A OAA

5 Gorffennaf 2016

At holl Aelodau Seneddol Cymru

Annwyl Gyfaill

**Bil Cymru – gwelliannau arfaethedig ar gyfer 11 Gorffennaf**

Yn dilyn y llythyr a anfonais yr wythnos ddiwethaf, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am y newidiadau ychwanegol yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw sy'n ymwneud â chymalau ym Mil Cymru a gaiff eu trafod ddydd Llun 11 Gorffennaf. Yn unol â'r drefn flaenorol, rwyf hefyd wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol, ac rwy'n gobeithio y bydd y cynigion hyn yn cyfrannu at y ddadl bwysig ynghylch setliad cyfansoddiadol Cymru ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwelliannau yr wyf wedi'u cyhoeddi heddiw yn canolbwyntio ar sicrhau bod cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn glir ac yn ymarferol, ac nad yw'n lleihau'r pwerau a ddatganolwyd i'r Cynulliad o dan y setliad presennol.

Fy mhryder pennaf o ran y model arfaethedig ar gyfer cymhwysedd yw y bydd y Bil yn gwahardd y Cynulliad yn llwyr rhag deddfu mewn unrhyw ffordd sy'n 'ymwneud â' mater a gadwyd yn ôl.  Bydd hyn yn arwain at golli rhywfaint o gymhwysedd o'i gymharu â'r setliad presennol, a hynny yn y ddwy ffordd a ganlyn:

Yn gyntaf, mae'r setliad presennol yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu mewn ffordd "ategol" ar eithriadau o ran cymhwysedd (sy'n cyfateb i gymalau cadw o dan y setliad arfaethedig).  Nid yw'r Bil yn rhoi rhwydd hynt i'r Cynulliad ddeddfu yn y modd "ategol" hyn.

Yn ail, yn achos *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)* mynegodd y Goruchaf Lys yn glir fod gan y Cynulliad hawl i ddeddfu ar hyn o bryd ar faterion ag iddynt "ddiben deuol" - lle mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â materion sydd wedi'u cynnwys yn



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

benodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a materion nad ydynt wedi'u crybwyll o gwbl yn Neddf Llywodraeth Cymru – yr hyn a elwir yn bynciau tawel. Unwaith eto, byddai'r Bil yn dileu rhwydd hynt y Cynulliad yn y cyd-destun hwn.

Nod y prif newidiadau yr wyf yn eu cynnig yw:

- Adfer cymhwysedd y Cynulliad yn rhannol drwy ei alluogi i ddeddfu mewn ffordd ategol mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl;

- Dileu'r prawf angenrheidrwydd mewn perthynas â'r gyfraith ar faterion a gadwyd yn ôl, ac mewn achosion lle mae deddfwriaeth y Cynulliad yn ymwneud â Lloegr;

- Diwygio cyfyngiadau'r gyfraith droseddol er mwyn sicrhau eu bod yn unol â chyfyngiadau'r gyfraith breifat, fel y gall y Cynulliad addasu'r gyfraith droseddol at ddibenion datganoledig.

Mae'r dogfennau sydd wedi'u hatodi yn cynnwys disgrifiad manwl o'r newidiadau yr wyf yn eu hawgrymu, yn ogystal â'r gwelliannau drafft eu hunain. Mae testun y gwelliannau drafft hefyd wedi'i gynnwys fel atodiad.

Byddaf yn parhau i drafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol materion eraill y bydd angen ystyriaeth bellach arnynt yn nes ymlaen yn nhaith y Bil, gan gynnwys y darpariaethau ar gydsyniad Llywodraeth y DU.

Byddwn yn fwy na pharod i drafod unrhyw agwedd gyda chi, ac mae croeso i chi gysylltu â'm swyddfa.

Yn gywir

Elin Jones

Elin Jones AC
Llywydd

Amg